



SWYDD DDISGRIFIAD

Cydlynnydd Prosiect Bws Gwennol

ORIAU GWAITH – 35 awr yr wythnos

Cytundeb – Dwy Flynedd

Cyflog - £25,207

Disgrifiad Swydd

Cyffredinol

Mae Partneriaeth Ogwen yn fenter gymdeithasol sy'n gweithredu prosiectau adfywio cymunedol, economaidd ac amgylcheddol yn Nyffryn Ogwen. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth clericio i dri o Gynghorau Cymuned Dyffryn Ogwen, sef Cynghorau Cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai ac yn rheoli nifer o asedau ar Stryd Fawr Bethesda yn cynnwys Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen, siopau ac unedau preswyl. Ers ein sefydlu, rydym wedi arwain ar ddatblygiad nifer o brosiectau amgylcheddol yn cynnwys datblygiad cynllun hydro Ynni Ogwen a datblygiad Canolfan Dyffryn Gwyrdd ar Stryd Fawr Bethesda. Rydym hefyd yn arwain prosiect Dyffryn Gwyrdd gyda chefnogaeth ariannol Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i atal tloedi trwy weithredu amgylcheddol yn y Dyffryn.

Rydym yn awr yn arwain prosiect Bws Gwennol trydan fydd yn gwasanaethu trigolion lleol ac ymwelwyr i'r ardal. Y bwriad yw lleihau'r problemau parcio i fyny wrth Llyn Ogwen a chynyddu'r budd economaidd a chymunedol i bentref Bethesda. Bydd y bws gwennol yn rhedeg yn rheolaidd rhwng Bethesda a Llyn Ogwen yn ystod cyfnodau brig (gwyliau pasg a haf). Tu hwnt i'r gwasanaeth i ymwelwyr, bydd y bws ar gael i fudiadau cymunedol yr ardal i'w llogi a bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i helpu'n cymuned i gyrraedd safleoedd gwaith a chymdeithasol tu hwnt i ddalgylch Dyffryn Ogwen. Mae'r prosiect yn cydfynd a gweledigaeth Partneriaeth Ogwen o ddod a budd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i'n ardal.

Rydym yn awr yn chwilio am Gydlynnydd i'r prosiect arloesol hwn.

Oriau Gwaith

Cyflogir y Cydlynnydd am 35 awr yr wythnos am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau.

Lleoliad Swydd

Swyddfeydd Partneriaeth Ogwen, 26-27 Stryd Fawr, Bethesda, LL57 3AE.

Prif Ddyletswyddau

Bydd y dyletswyddau'r Cydlynnydd yn cynnwys:

1. Rheoli prosiect Bws Gwennol Dyffryn Ogwen gan sicrhau fod y prosiect yn datblygu ac yn tyfu yn ystod y ddwy flynedd nesaf.
2. Sicrhau systemau gweinyddol a llogi cadarn i gefnogi datblygiad y prosiect ar y cyd a Swyddog Gweinyddol y gwasanaeth bws gwennol.
3. Cydweithio gyda partneriaid ym Mharc Cenedlaethol Eryri, Zip World, Cyngor Gwynedd, Ymddiriedolaeth Genedlaethol a phartneriaid eraill yn lleol i ddatblygu gwasanaeth bws gwennol i ymwelwyr rhwng Bethesda a Llyn Ogwen yn ystod cyfnodau gwyliau cyhoeddus.
4. Cydweithio gyda cymdeithasau, grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol i ddatblygu defnydd cymunedol o'r bws gwennol.
5. Llunio amserlen rhedeg y bws gwennol a rhoi cefnogaeth i'r gyrrwyr cyflogedig a gwirfoddol yn ol yr angen.
6. Rheoli a chefnogi datblygiad gyrrwyr cyflogedig y prosiect a Swyddog Gweinyddol rhan amser y prosiect.
7. Llunio cynllun marchnata i hyrwyddo'r gwasanaeth newydd rhwng Bethesda a Llyn Ogwen fel rhan o gynlluniau marchnata twristiaeth gynladwy Partneriaeth Ogwen ac mewn partneriaeth a phartneriaid lleol. Cyfrannu hefyd tuag at becynnau profiad Twristiaeth Gynladwy ar y cyd a staff eraill Partneriaeth Ogwen.
8. Arwain ar anghenion marchnata'r prosiect gyda chefnogaeth staff Partneriaeth Ogwen. Mae hyn yn cynnwys creu/comisiynu taflenni hyrwyddo ac ymgyrchoedd marchnata gan hyrwyddo'r cyfleoedd i logi'r bws gwennol gyda mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol gan sicrhau defnydd cyson o'r bws.
9. Cydweithio gyda'r gyrrwyr cyflogedig a gwirfoddol i sicrhau fod y cerbyd yn ddiogel ac yn cyfarfod y safonau angenrheidiol i gydymffurfio â rheolau'r drwydded. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod y gyrrwyr yn cynnal archwiliadau diogelwch y cerbyd a bod asesiadau risg mewn lle.
10. Cydweithio â Phrif Swyddog Partneriaeth Ogwen i ddatblygu cynllun busnes hir dymor i'r gwasanaeth bws gwennol gan sicrhau fod y gwasanaeth yn gynladwy tu hwnt i ddwy flynedd cyntaf y grant.
11. Adnabod anghenion hyfforddiant staff a gwirfoddolwyr y prosiect yn cynnwys hyfforddiant MIDAS i yrrwyr cyflogedig a gwirfoddol y bws gwennol.
12. Sicrhau fod holl hawliadau grant y prosiect yn cael eu gwneud yn unol â gofynion y grant gan WEFO. Goruchwyllo'r Swyddog Gweinyddol i sicrhau fod yr hawliadau yn cael eu cyflwyno yn brydlon a threfnus.
13. Gosod systemau monitro defnydd cadarn gan weithio efo'r Swyddog Gweinyddol i sicrhau fod y cynllun yn cyrraedd yr allbynnau gofynnol gan adrodd ar gynnydd y prosiect i Grwp Llywio'r prosiect.
14. Mynychu cyfarfodydd staff Partneriaeth Ogwen yn ôl y galw i drafod datblygiad y gwasanaeth tua'r dyfodol.

15. Cydweithio â gweddill y tîm a staff Partneriaeth Ogwen i ddatblygu cyfleoedd newydd i'r bws gwennol gael ei ddefnyddio i gefnogi ein cymuned.

Nodweddion Personol a Sgiliau Angenrheidiol

Nodir y nodweddion personol gofynnol yn y Fanyleb Person ond byddwn yn chwilio am berson sydd â phrofiad o reoli prosiectau, sydd yn angerddol am ddatblygu cymunedol a chynnaladwy a sy'n meddu ar sgiliau gweinyddol a rheoli prosiect cadarn.

Cefnogaeth Weinyddol

Bydd Swyddog Gweinyddol Rhan Amser yn cynorthwyo gyda gwaith gweinyddol y prosiect.

Atebolrwydd

Bydd y Cydlynnydd Bws Gwennol Dyffryn Ogwen yn atebol i Reolwr Gweinyddol Partneriaeth Ogwen.